CIWB

**Tasg 1**

# Dathlu Dydd Santes Dwynwen

1. Sut mae Carwyn Claude Crawford eisiau dathlu Dydd Santes Dwynwen?

2. Sut mae pobl eraill yn dathlu Dydd Santes Dwynwen? Edrychwch ar ddechrau’r ffilm eto.

4. Beth fydd yn digwydd nesa, tybed? Mewn parau / grwpiau, meddyliwch am ddiwedd i’r ffilm.

5. Sgriptiwch y diwedd.

6. Actiwch y diwedd.

Ewch i’r dudalen nesaf.

7. Beth ydy'r Gymraeg?
Gwrandewch eto ac ysgrifennwch y brawddegau a'r cwestiynau yn Gymraeg.

a. She'll ring the bell.

b. I'll run to answer.

c. We'll have a romantic dinner.

ch. Ceridwen will be here in five minutes.

d. What will you eat?

dd. We'll have fish, chips and mushy peas.

e. She'll be disappointed.

f. Will pizza be alright?

ff. No.

g. Will Chinese food be alright?

ng. Yes.

Mae help ar y dudalen nesaf ar gyfer gweithgaredd 8 a 9

8. Gwnewch gwestiynau o'r brawddegau yma.

a. Bydd Ceinwen a Roberto'n hapus.

b. Byddan nhw'n bwyta bwyd blasus.

c. Bydd Roberto'n rhoi blodau i Ceridwen.

ch. Byddwch chi'n dathlu Dydd Santes Dwynwen.

d. Byddi di'n mynd i'r sinema.

dd. Bydda i'n cael cerdyn Dwynwen.

9. Trowch y brawddegau yma i'r negyddol.

a. Bydd Ceridwen yn dod i swper.

b. Bydd Carwyn a Ceridwen yn bwyta pizza.

c. Byddan nhw'n bwyta pysgod a sglodion.

ch. Bydd Ceridwen yn cael anrheg arbennig.

d. Bydda i'n dathlu Dydd Santes Dwynwen.

dd. Byddwn ni'n mynd i weld ffilm yn y sinema.

## HELP

### Y DYFODOL

| | |
|---|---|
| Bydd**a** i'n dathlu.<br>Bydd**i** di'n dathlu.<br>Bydd e'n / o'n dathlu.<br>Bydd hi'n dathlu.<br>Bydd**wn** ni'n dathlu.<br>Bydd**wch** chi'n dathlu.<br>Bydd**an** nhw'n dathlu. | I'll celebrate / be celebrating.<br>You'll celebrate / be celebrating.<br>He'll celebrate / be celebrating.<br>She'll celebrate / be celebrating.<br>We'll celebrate / be celebrating.<br>You'll celebrate / be celebrating.<br>They'll celebrate / be celebrating. |

### GOFYN CWESTIYNAU

| | |
|---|---|
| Fydd**a** i'n dathlu?<br>Fydd**i** di'n dathlu?<br>Fydd e'n / o'n dathlu?<br>Fydd hi'n dathlu?<br>Fydd**wn** ni'n dathlu?<br>Fydd**wch** chi'n dathlu?<br>Fydd**an** nhw'n dathlu? | Will I celebrate / be celebrating?<br>Will you celebrate / be celebrating?<br>Will he celebrate / be celebrating?<br>Will she celebrate / be celebrating?<br>Will we celebrate / be celebrating?<br>Will you celebrate / be celebrating?<br>Will they celebrate / be celebrating? |

Sut mae gofyn cwestiynau? Beth sy'n digwydd?

### Y NEGYDDOL

| | |
|---|---|
| Fydd**a** i ddim yn dathlu.<br>Fydd**i** di ddim yn dathlu.<br>Fydd e / o ddim yn dathlu.<br>Fydd hi ddim yn dathlu.<br>Fydd**wn** ni ddim yn dathlu.<br>Fydd**wch** chi ddim yn dathlu.<br>Fydd**an** nhw ddim yn dathlu. | I won't celebrate / be celebrating.<br>You won't celebrate / be celebrating.<br>He won't celebrate / be celebrating.<br>She won't celebrate / be celebrating.<br>We won't celebrate / be celebrating.<br>You won't celebrate / be celebrating.<br>They won't celebrate / be celebrating. |

Sut mae gwneud y negyddol? Beth sy'n digwydd?